**Rhif: WG29621**

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Cynnig ar gyfer rheoliadau o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 a phedair dogfen ganllaw

Dyddiad cyhoeddi: **Ebrill 2017**

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL (h) Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-4734-9111-3

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **Cyflwyniad** | | 3 |
| **C1.** | Ydych chi’n cytuno â'r rhesymau dros adolygu'r penderfyniad i ddynodi henebion cofrestredig? | 5 |
| **C2.** | Ydych chi’n cytuno â'r rhesymau dros adolygu'r penderfyniad i ddynodi adeiladau rhestredig? | 6 |
| **C3.** | Ydych chi'n cytuno y dylai cais am adolygiad gael ei wneud o fewn tri mis i dderbyn hysbysiad dynodi? | 7 |
| **C4.** | A ddylid gofyn am unrhyw wybodaeth arall yn y cais am adolygiad? | 8 |
| **C5.** | A yw'r gweithdrefnau a amlinellir yn rhesymol ac yn deg i bawb sy'n cymryd rhan mewn adolygiadau dynodi, yn eich barn chi? | 9 |
| **C6.** | Ydych chi'n cytuno â'r mesurau arfaethedig ar gyfer dyfarnu costau er mwyn atal ymddygiad afresymol mewn adolygiadau dynodi? | 10 |
| **C7.** | A yw'r canllawiau statudol drafft, *Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Llunio a Defnyddio*, yn nodi'n glir rolau a chyfrifoldebau'r cyrff cyhoeddus perthnasol? | 10 |
| **C8.** | A yw'r canllawiau statudol drafft, *Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Llunio a Defnyddio*, yn rhoi digon o arweiniad i gyrff cyhoeddus perthnasol ynghylch sut y gallant gyfrannu at y gwaith o lunio cofnodion amgylchedd hanesyddol? | 12 |
| **C9.** | A yw'r canllawiau statudol drafft, *Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Llunio a Defnyddio*, yn nodi'n glir sut y dylai'r cyrff cyhoeddus perthnasol ddefnyddio'r cofnodion amgylchedd hanesyddol wrth arfer eu swyddogaethau? | 13 |
| **C10.** | A fydd y canllawiau drafft, *Rheoli Adeiladau Rhestredig sydd mewn Perygl yng Nghymru*, yn helpu i reoli adeiladau hanesyddol sydd mewn perygl yn fwy effeithiol? | 15 |
| **C11.** | A yw'r cyngor ar gyflwr, defnydd a pherchenogaeth yn y canllawiau drafft, *Rheoli Adeiladau Rhestredig sydd mewn Perygl yng Nghymru*, yn cwmpasu'r prif faterion? | 16 |
| **C12.** | A yw'r canllawiau drafft, *Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru,* yn esbonio'n glir y goblygiadau sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar barc neu ardd hanesyddol sydd wedi'i gynnwys/wedi'i chynnwys ar y gofrestr statudol? | 17 |

**C13.** A fydd *Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru* yn helpu perchenogion a'u hasiantau i reoli parciau a gerddi hanesyddol er mwyn cyflawni newid sensitif o ansawdd uchel? 18

**C14.** A yw'r canllawiau drafft, *Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru*, yn esbonio'n glir beth yw nodwedd hanesyddol? 19

**C15.** A yw'r canllawiau drafft, *Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru*, yn rhoi digon o wybodaeth i gefnogi'r gwaith o reoli nodweddion hanesyddol yn effeithiol? 20

**C16.** Os oes gennych unrhyw faterion perthnasol nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny. 21

**Rhestr o'r ymatebwyr (wedi'u trefnu yn ôl categori)** 23

# Cyflwyniad

1. Pasiwyd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 21 Mawrth 2016, er mwyn gwneud gwelliannau pwysig i'r systemau presennol ar gyfer gwarchod amgylchedd hanesyddol Cymru a'i reoli mewn ffordd gynaliadwy.[1] Bydd hefyd wrth wraidd pecyn integredig o is-ddeddfwriaeth, polisi a chyngor cynllunio newydd ac wedi'i ddiweddaru a chanllawiau arfer gorau ar amrywiaeth eang o bynciau. Gyda'i gilydd, bydd y rhain yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r gwaith o reoli newid yn yr amgylchedd hanesyddol yn ofalus yn unol ag athroniaeth ac arfer cadwraeth presennol.

2. Cynlluniwyd y gyfres gyfan hon o ddeddfwriaeth, polisi, cyngor a chanllawiau gan ystyried y saith nod a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.[2] Mae'r nodau llesiant hynny yn rhoi gweledigaeth a rennir o'r 'Gymru a garem' i gyrff cyhoeddus, y gallant weithio tuag ati.

3. Rhwng 19 Hydref a 13 Ionawr 2017, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos ar gynnig ar gyfer is-ddeddfwriaeth i ategu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 a nifer o ddogfennau canllaw drafft. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r cyfraniadau at yr ymgynghoriad hwnnw ac yn nodi ymatebion Llywodraeth Cymru.

4. Ceisiodd yr ymgynghoriad farn ymatebwyr ar y canlynol:

   A. Cynnig ar gyfer rheoliadau o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 i bennu gweithdrefnau ar gyfer adolygu penderfyniad i ddynodi heneb gofrestredig neu adeilad rhestredig (cwestiynau 1–6);

   B. Canllawiau statudol drafft ar gyfer rhai cyrff cyhoeddus — *Cofnodion* Amgylchedd *Hanesyddol yng Nghymru: Llunio a Defnyddio* — fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 (cwestiynau 7–9);

   C. Canllawiau arfer gorau drafft: *Rheoli Adeiladau Rhestredig sydd mewn Perygl yng Nghymru* (cwestiynau 10–11);

   Ch. Canllawiau arfer gorau drafft: *Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru* (cwestiynau 12 a 13);

   D. Canllawiau arfer gorau drafft: *Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru* (cwestiynau 14 a 15);

   Dd. Unrhyw faterion cysylltiedig nas codwyd yn benodol yn y cwestiynau cynharach (cwestiwn 16).

[1] http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/4/contents/enacted
[2] http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents


5. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar dudalennau gwe Llywodraeth Cymru sydd wedi'u neilltuo ar gyfer ymgynghoriadau, lle roedd y dogfennau canllaw drafft a ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar gael i'w lawrlwytho.

6. Defnyddiwyd amrywiaeth o gyfryngau i gyhoeddi'r ymgynghoriad. Cyfeiriwyd ato ar y tudalennau Diwylliant a Chwaraeon ar wefan Llywodraeth Cymru ac ar wefan Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru (Cadw). Darparwyd rhagor o wybodaeth ar dudalennau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) ar wefan Cadw. Cafodd y bwriad i gyhoeddi'r ymgynghoriad hwn sylw yn y trydydd rhifyn o e-fwletin Cadw, ‘Newyddion Diweddaraf am yr Amgylchedd Hanesyddol’, a ddosbarthwyd i fwy na 600 o randdeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd. Anfonwyd neges atgoffa drwy e-bost at y rhai a oedd wedi derbyn yr e-fwletin gwreiddiol dair wythnos cyn i'r ymgynghoriad ddod i ben. At hynny, cysylltodd staff cyfathrebu Llywodraeth Cymru â rhanddeiliaid allweddol yn y sector er mwyn rhoi gwybod iddynt am yr ymgynghoriad a defnyddiwyd sianeli cyfryngau cymdeithasol Cadw i godi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad ac anfon negeseuon i atgoffa sefydliadau ac unigolion ei fod ar fin dod i ben.

## Yr ymatebion

7. Ymatebodd 49 o sefydliadau ac unigolion i'r ymgynghoriad. Ceir rhestr lawn yn Atodiad 1, gyda manylion wedi'u hepgor lle mae ymatebydd wedi gofyn am gael aros yn ddienw.

8. Anfonwyd dros dri chwarter yr ymatebion (39) o gyfeiriadau yng Nghymru. Er i'r 10 ymateb sy'n weddill gael eu hanfon o'r tu allan i Gymru neu o gyfeiriadau nas datgelwyd, roedd bron pob un ohonynt yn adlewyrchu cyfranogiad clir yn y gwaith o reoli'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru a diddordeb uniongyrchol yng nghynigion yr ymgynghoriad.




**Ffigur 1. Ymatebion i'r ymgynghoriad yn ôl categori**

9. Gofynnodd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad i ymatebwyr ddewis un o saith categori i ddisgrifio eu hunain. Mae Ffigur 1 yn rhoi dadansoddiad o'r ymatebion yn ôl categori.

10. Gan fod yr ymgynghoriad yn cwmpasu amrywiaeth eang o bynciau, gwahoddwyd ymatebwyr i anwybyddu unrhyw gwestiynau nad oeddent o ddiddordeb iddynt neu nad oedd ganddynt brofiad ohonynt. O ganlyniad, roedd llawer o ymatebion gwag ar gyfer pob cwestiwn ac mae'r rhain wedi'u hepgor o'r ystadegau yn y dadansoddiad manwl o'r cwestiynau unigol sy'n dilyn.

## A. Rheoliadau i bennu gweithdrefnau ar gyfer adolygu penderfyniad i ddynodi heneb gofrestredig neu adeilad rhestredig

| C1. | Ydych chi'n cytuno â'r rhesymau dros adolygu'r penderfyniad i ddynodi henebion cofrestredig? |
|---|---|

| Ydy | Nac ydw | Sylw yn unig | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| 32 | 0 | 1 | **33** |
| 97% | 0% | 3% | **100%** |

**Crynodeb o'r dadansoddiad**

11. Roedd bron pob un o'r ymatebwyr o blaid y rhesymau arfaethedig dros gynnal adolygiad. Dim ond un ymatebydd a nododd nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig, ond cyflwynodd sylwadau sylweddol.

12. Roedd dau ymatebydd, a oedd yn cynrychioli tirfeddianwyr, yn credu'n gryf y dylai fod gan berchenogion henebion sydd eisoes wedi'u cofrestru hawliau tebyg i ofyn am adolygiad.

13. Gofynnodd rhai awdurdodau lleol am wybodaeth ychwanegol am rôl yr awdurdod cynllunio lleol yn y broses adolygu. Roedd ymatebwyr eraill, a oedd yn cynrychioli'r proffesiwn archaeolegol, am gael sicrwydd na fyddai'r ymgeisydd yn gallu herio penderfyniad ar ran Gweinidogion Cymru i arfer eu disgresiwn i gofrestru heneb ar ôl cadarnhau bod yr heneb o bwys cenedlaethol.

14. Awgrymodd corff proffesiynol arall y dylid atgyfnerthu'r rhesymau dros gynnal adolygiad, er enghraifft, drwy ofyn am dystiolaeth sylweddol nad oedd yr heneb o bwys cenedlaethol fel rhan o'r rheswm cyntaf dros gynnal adolygiad. Awgrymwyd hefyd y byddai angen i *Nodyn Cyngor Technegol 24* gynnwys gwybodaeth ychwanegol am ddadgofrestru a diwygiadau i'r gofrestr. Nodwyd y dylai canllawiau nodi'n glir pryd na ddylid cynnal adolygiad, er enghraifft, pe bai camau gorfodi ar fin cael eu cymryd neu'n cael eu cymryd, pe bai apêl ar fin cael ei chyflwyno neu'n mynd rhagddi neu pe bai achos o erlyn ar fin cael ei ddwyn neu'n mynd rhagddo.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

15. Gan fod y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr o'i blaid, caiff y rhesymau arfaethedig dros adolygu'r penderfyniad i ddynodi henebion cofrestredig eu mabwysiadu. Dim ond ar ôl i'r rheoliadau ddod i rym y bydd perchenogion/deiliaid yn gallu gofyn am adolygiadau o ddynodiadau newydd. Fodd bynnag, gall perchennog heneb gofrestredig ofyn i Cadw ailystyried dynodiad, neu ei faint, unrhyw bryd, os gellir dangos bod camgymeriad wedi'i wneud yn ystod y broses gofrestru neu os bydd gwybodaeth newydd yn dangos nad yw'r safle, neu ran ohono, yn bodloni'r meini prawf cofrestru.

| C2. | Ydych chi'n cytuno â'r rhesymau dros adolygu'r penderfyniad i ddynodi adeiladau rhestredig? |
|---|---|

| Ydw | Nac ydw | Sylw yn unig | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| 34 | 0 | 1 | **35** |
| 97% | 0% | 3% | **100%** |

**Crynodeb o'r dadansoddiad**

16. Roedd pob un ond un o'r ymatebwyr o blaid y rhesymau arfaethedig dros gynnal adolygiad. Nid oedd yr ymatebydd a oedd yn weddill yn cytuno nac yn anghytuno, ond cyflwynodd sylwadau sylweddol.

17. Nododd dau ymgynghorai, a oedd yn cynrychioli perchenogion adeiladau rhestredig, y dylai fod gan berchenogion adeiladau sydd eisoes wedi'u rhestru yr un hawliau i ofyn am adolygiad dynodi.

18. Awgrymodd ymatebwyr nifer o faterion ychwanegol i'w cynnwys yn y rhesymau dros gynnal adolygiad, megis: camgymeriad wrth nodi cwrtil, cyflwr yr adeilad ar adeg ei restru ac ystyriaethau cynllunio os oedd caniatâd cynllunio wedi'i roi.

19. Nododd un awdurdod cynllunio lleol na ddylai gwaith nas awdurdodwyd fod yn ystyriaeth mewn cynnig i ddadrestru adeilad, tra roedd ymatebydd arall o'r farn na ddylid cynnal adolygiad, er enghraifft, pe bai camau gorfodi ar fin cael eu cymryd neu'n cael eu cymryd neu pe bai achos o erlyn ar fin cael ei ddwyn neu'n mynd rhagddo. Awgrymodd ymatebydd arall mai'r unig reswm y dylid ei dderbyn dros gynnal adolygiad yw bod tystiolaeth newydd ynghylch arwyddocâd yr adeilad.

20. Gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurhad pellach ynglŷn â'r rhesymau dros gynnal adolygiad, er enghraifft, a oedd angen tystiolaeth newydd i herio canfyddiad bod adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Gofynnwyd am eglurhad pellach ynghylch ystyr 'tystiolaeth ychwanegol sylweddol' hefyd.

21. Gofynnodd yr awdurdodau cynllunio lleol am esboniad o'u rôl yn y broses adolygu ac awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r un rhesymau yn cael eu defnyddio ar gyfer ceisiadau i ddadrestru adeilad.

22. Awgrymodd un ymatebydd y byddai'r ymgynghoriad a'r broses adolygu yn arwain at ddyblygu gan y byddai perchennog yn cael cyfle i wrthwynebu'r penderfyniad i restru adeilad ar adeg yr ymgynghoriad cychwynnol ac fel rhan o'r broses adolygu.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

23. Y rheswm dros gynnal adolygiad o benderfyniad i ddynodi adeiladau rhestredig fydd nad yw'r adeilad o ddiddordeb pensaernïol na hanesyddol arbennig, hynny yw, nad yw'n bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer dynodi adeilad. Bydd hyn yn cynnwys nifer o resymau ychwanegol a awgrymwyd gan ymatebwyr ac nid oes angen eu nodi'n unigol. Dim ond ar ôl i'r rheoliadau ddod i rym y bydd perchenogion/deiliaid yn gallu gofyn am adolygiadau o ddynodiadau newydd. Fodd bynnag, gall perchennog adeilad rhestredig ofyn i Cadw ailystyried penderfyniad i ddynodi'r adeilad neu radd restredig unrhyw bryd, os gellir dangos bod camgymeriad wedi'i wneud wrth ddynodi'r adeilad neu os daw gwybodaeth newydd i'r amlwg.

| | |
|---|---|
| **C3.** | **Ydych chi'n cytuno y dylai cais am adolygiad gael ei wneud o fewn tri mis i dderbyn hysbysiad dynodi? Os nad ydych, faint o amser y dylid ei roi?** |

| Ydw | Nac ydw | Sylw yn unig | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| 25 | 10 | 2 | **37** |
| 68% | 27% | 5% | **100%** |

**Crynodeb o'r dadansoddiad**

24. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig y dylai cais am adolygiad gael ei wneud o fewn tri mis i dderbyn hysbysiad dynodi. Nododd nifer o ymatebwyr ei bod yn bwysig rhoi sicrwydd i bawb ynghylch statws yr ased cyn gynted â phosibl. Roedd un ymatebydd o'r farn y dylai'r cyfnod adolygu fod yn llai na thri mis, gan y byddai'r perchennog/deiliad yn ymwybodol o'r cynnig i ddynodi'r ased yn gynnar drwy'r broses ymgynghori ffurfiol.

25. O blith y rhai nad oeddent yn cytuno â'r cyfnod adolygu arfaethedig o dri mis, roedd y mwyafrif o'r farn y byddai chwe mis yn gyfnod mwy priodol, am y byddai'n gyson â rhai apeliadau cynllunio ac yn rhoi digon o amser i'r perchennog/deiliad gasglu'r holl wybodaeth berthnasol. Yn benodol, mynegodd ymatebydd a oedd yn cynrychioli buddiannau eglwysig bryder y byddai tri mis yn gyfnod rhy fyr; nid oedd bob amser yn hawdd canfod pwy yw ’perchenogion/deiliaid’ adeiladau eglwysig a gallai adeiladau gael eu dal mewn amrywiaeth o ymddiriedolaethau. At hynny, mewn rhai eglwysi byddai angen ymgynghoriad rhwng dwy neu dair haen o'r strwythur llywodraethu cyn cael cymeradwyaeth i gyflwyno cais am adolygiad. Roedd ymatebydd arall o'r farn na ddylai fod unrhyw derfyn o gwbl ar y cyfnod adolygu, gan y gallai gwybodaeth newydd newid dealltwriaeth pobl o arwyddocâd asedau unigol unrhyw bryd.

26. Awgrymwyd, pe bai adeilad wedi'i restru rhwng yr adeg y cafodd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ym mis Mawrth 2016

a'r adeg y daeth y rheoliadau i rym, y dylai'r perchennog/deiliad gael cyfle i ofyn am adolygiad ffurfiol o'r penderfyniad i restru.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

27. Ymgynghorir yn ffurfiol â'r perchennog/deiliaid yn ystod y broses o ddynodi adeilad rhestredig neu heneb gofrestredig. Felly, ystyrir bod cyfnod ychwanegol o dri mis i gyflwyno cais am adolygiad yn rhesymol ac y bydd yn rhoi sicrwydd i bawb ynghylch statws ased. O dan amgylchiadau eithriadol, bydd y person a benodir i gynnal adolygiad yn gallu ymestyn y terfynau amser a nodir yn y rheoliadau. Caiff priodoldeb y terfynau amser eu hadolygu'n barhaus.

| **C4.** | **A ddylid gofyn am unrhyw wybodaeth arall yn y cais am adolygiad? Os dylid, rhowch fanylion.** |
|---|---|

| Dylid | Na ddylid | Sylw yn unig | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| 12 | 20 | 1 | **33** |
| 36% | 61% | 3% | **100%** |

**Crynodeb o'r dadansoddiad**

28. Gwnaeth ymatebwyr rai awgrymiadau ar gyfer gwybodaeth ychwanegol y gellid gofyn amdani yn y cais am adolygiad, gan gynnwys:

- cyfesurynnau'r Arolwg Ordnans a chyfeiriad llawn a chod post adeilad neu heneb er mwyn helpu i'w adnabod;
- statws yr ymgeisydd a ph'un a oes cydymgeiswyr.

29. At hynny, cyflwynodd rhai ymatebwyr sylwadau cyffredinol ar agweddau ar y gweithdrefnau gwneud cais, gan gynnwys:

- dylai fod yn glir nad yw cais gan berchennog neu ddeiliad yn atal y llall rhag gwneud cais;
- dylai'r hysbysiad dynodi a anfonir gan Weinidogion Cymru gynnwys copi o'r ffurflen gwneud cais am adolygiad;
- dylai pobl â diddordeb yn yr adolygiad gynnwys cymdeithasau amwynder perthnasol ac awdurdodau cynllunio lleol;
- dylid ymestyn yr amser sydd gan yr ymgeisydd a Gweinidogion Cymru i ymateb i sylwadau pobl â diddordeb o bythefnos i dair wythnos;
- dylai sylwadau pobl â diddordeb gael eu hategu gan dystiolaeth glir a chadarn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

30. Caiff y wybodaeth sydd angen ei chynnwys yn y cais am adolygiad ei diwygio i gynnwys cyfeiriad y tir lle mae'r ased dynodedig wedi'i leoli neu ddisgrifiad o leoliad y tir hwnnw. Darperir ar gyfer cais ar y cyd gan y perchennog a'r deiliad, yn ogystal â cheisiadau ar wahân am adolygiad. Caiff nodiadau cyfarwyddyd eu llunio i gyd-fynd â'r cais am adolygiad.

| C5. | **A yw'r gweithdrefnau a amlinellir yn rhesymol ac yn deg i bawb sy'n cymryd rhan mewn adolygiadau dynodi, yn eich barn chi? Os nad ydynt, sut y gellid eu gwella?** |
|---|---|

| Ydynt | Nac ydynt | Sylw yn unig | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| 26 | 4 | 5 | **35** |
| 74% | 12% | 14% | **100%** |

**Crynodeb o'r dadansoddiad**

31. Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cytuno â'r gweithdrefnau adolygu arfaethedig am eu bod yn adlewyrchu gweithdrefnau apelio sy'n gweithio'n dda ar y cyfan ac sy'n cael eu deall yn dda.

32. Gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurhad ynghylch rôl pobl â diddordeb ac, yn benodol, yr awdurdod cynllunio lleol. Awgrymwyd hefyd y dylai datganiadau ategol gan bobl â diddordeb gynnwys cymhwyster perthnasol yr ymatebydd, aelodaeth o unrhyw gorff proffesiynol neu unrhyw achrediad arall a all fod ganddo.

33. Argymhellodd dau ymatebydd y dylai ymweliadau safle fod yn elfen hanfodol o bob adolygiad ac nad yr Arolygiaeth Gynllunio a ddylai benderfynu p'un a ddylid eu cynnal ai peidio; nododd ymatebydd arall na ddylai fod angen cael caniatâd y perchennog/deiliad er mwyn i'r arolygydd gael mynediad i'r ased hanesyddol dan sylw. Roedd un ymatebydd am gael eglurhad ynglŷn â phwy fyddai'n penderfynu pa weithdrefn a ddefnyddid ar gyfer yr adolygiad; tra awgrymodd un arall y dylai fod yn ofynnol i'r Arolygiaeth Gynllunio gyhoeddi testun, dyddiad a lleoliad ymchwiliad cyhoeddus.

34. Lleisiodd tri ymatebydd rywfaint o bryder y gallai rhai perchenogion/deiliaid ystyried bod y gweithdrefnau yn anodd iawn, yn enwedig y rhai na allant gael gafael ar gyngor cyfreithiol. Argymhellwyd y dylid rhoi hyblygrwydd i'r Arolygiaeth Gynllunio wneud addasiadau rhesymol i'r gweithdrefnau er mwyn sicrhau na fydd yr ymgeiswyr hynny o dan anfantais.

35. Lleisiwyd rhywfaint o bryder hefyd ynghylch p'un a oedd gan yr Arolygiaeth Gynllunio yr arbenigedd a'r cymwysterau sydd eu hangen i gynnal adolygiadau sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol yn ddigon da.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

36. Mae Llywodraeth Cymru yn falch bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r gweithdrefnau adolygu arfaethedig. Bydd awdurdod cynllunio lleol yn berson â diddordeb o fewn y broses adolygu a bydd yn gallu rhoi datganiad i'r person a benodir yn nodi ei farn ar yr adolygiad. Y person a benodir fydd yn penderfynu ar y weithdrefn fwyaf priodol ar gyfer yr adolygiad, ond bydd yr ymgeisydd yn gallu nodi'r weithdrefn a ffefrir ganddo wrth wneud cais am adolygiad. Bydd yn ofynnol i'r person a benodir gyhoeddi ymchwiliad cyhoeddus. Fodd bynnag, bydd gan y person a benodir y disgresiwn i benderfynu a oes angen cynnal ymweliad safle.

| C6. | **Ydych chi'n cytuno â'r mesurau arfaethedig ar gyfer dyfarnu costau er mwyn atal ymddygiad afresymol mewn adolygiadau dynodi? Os nad ydych, sut y gellid eu gwella?** |
|---|---|

| Ydw | Nac ydw | Sylw yn unig | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| 29 | 2 | 2 | **33** |
| 88% | 6% | 6% | **100%** |

**Crynodeb o'r dadansoddiad**

37. Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i ddyfarnu costau er mwyn atal ymddygiad afresymol mewn adolygiadau dynodi, ond amodwyd eu hymatebion am nad oedd manylion y canllawiau cynllunio ar 'Apeliadau, costau a symiau dyddiol safonol' wedi'u cadarnhau yn dilyn ymgynghoriad diweddar Llywodraeth Cymru.

38. Ymhlith y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig, roedd rhai yn pryderu y gallai pobl gael eu hatal rhag gwneud cais am adolygiad gan y posibilrwydd y câi costau eu dyfarnu yn eu herbyn. Awgrymwyd bod angen i ganllawiau esbonio'r term 'ymddygiad afresymol' ac mai dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y câi costau eu dyfarnu. At hynny, nodwyd nad oedd y ddogfen yn cydnabod bod addoldai yn cael eu dal gan elusennau na allent ond gwario eu harian er mwyn hyrwyddo dibenion yr elusen.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

39. Mae Llywodraeth Cymru yn falch bod y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cytuno â'r mesurau arfaethedig ar gyfer dyfarnu costau ond yn cydnabod yr amod bod angen ystyried y canllawiau terfynol ar 'Apeliadau, costau a symiau dyddiol safonol'.

## B. Canllawiau Statudol: *Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Llunio a Defnyddio*

| C7. | **A yw'r canllawiau statudol drafft, *Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Llunio a Defnyddio*, yn nodi'n glir rolau a chyfrifoldebau'r cyrff cyhoeddus perthnasol? Sut y gellid gwella'r adran hon?** |
|---|---|

| Ydyn | Nac ydyn | Sylw yn unig | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| 24 | 9 | 7 | **40** |
| 60% | 23% | 17% | **100%** |

**Crynodeb o'r dadansoddiad**

40. Yn gyffredinol, croesawyd y canllawiau gan y byddant yn codi proffil y cofnodion amgylchedd hanesyddol (CAHau) fel ffynonellau pwysig o wybodaeth am yr

amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Nododd yr ymatebwyr sawl maes lle y gellid gwella'r canllawiau a chynnig nifer o awgrymiadau adeiladol.

41. Awgrymodd tri ymatebydd y dylid diffinio cynulleidfa darged y canllawiau yn gliriach. Er bod adran 37 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn cyfeirio at gyrff cyhoeddus penodol, rhoddodd y penderfyniad i gyflwyno'r canllawiau yr argraff bod iddi berthnasedd llawer ehangach.

42. Er bod yr adran ar rolau a chyfrifoldebau'r cyrff cyhoeddus yn ddefnyddiol i'r ymatebwyr, roedd pob un ohonynt yn cytuno bod angen mwy o fanylion, yn enwedig am rôl y sefydliadau o ran rheoli a gwarchod yr amgylchedd hanesyddol. Gofynnodd nifer o awdurdodau lleol am fanylion pellach am rôl y CAHau o ran polisi cynllunio a rheoli datblygu. Awgrymwyd hefyd y gellid cynnwys gwybodaeth am arfarniadau o ardaloedd cadwraeth a chynlluniau rheoli a Chyfarwyddiadau Erthygl 4 yn y CAHau.

43. Roedd rhywfaint o bryder ynghylch nifer y gwefannau a chronfeydd data gwahanol sy'n rhoi mynediad at wybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol. Roedd un ymatebydd o'r farn bod angen strategaeth ddigidol.

44. Er i'r cyfeiriad yn y canllawiau at y defnydd o'r CAHau ar gyfer addysg, ennyn diddordeb pobl a thwristiaeth ddiwylliannol gael ei groesawu, ystyriwyd bod y wybodaeth yn y cronfeydd data yn eithaf academaidd ac nad oedd wedi'i bwriadu ar gyfer cynulleidfa leyg yn wreiddiol. Yn yr un modd, ystyriwyd bod angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod y CAHau yn fwy hygyrch i'r cyhoedd. Awgrymwyd y dylai'r canllawiau gyfeirio'n glir at y ddyletswydd sydd ar Weinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus eraill i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

45. O safbwynt gweinyddol, ystyriwyd y byddai angen diwygio a diweddaru'r memoranda cyd-ddealltwriaeth presennol rhwng yr ymddiriedolaethau archaeolegol a'r awdurdodau cynllunio lleol er mwyn adlewyrchu'r trefniadau statudol newydd. At hynny, roedd angen cyhoeddi meincnodau a safonau ar gyfer y CAHau.

46. Awgrymodd un ymatebydd fod angen ehangu cwmpas y wybodaeth yn y CAHau yn systematig drwy ychwanegu gwybodaeth ddigonol am adeiladau hanesyddol. Yn y cyfamser dylai'r canllawiau nodi'n gliriach nad oedd y CAH yn gyflawn, yn enwedig yn achos asedau hanesyddol nad oeddent yn rhai archaeolegol.

47. Gwnaed ychydig o awgrymiadau i wella cywirdeb y canllawiau, gan gynnwys cyfeiriadau at y canlynol:

- swyddfeydd cofnodion lleol yn yr adran ar 'Llunio';
- cofnodion sydd ar gael i'r cyhoedd a ddelir gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol;
- rôl Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC) o ran rhoi cyngor mewn perthynas â chydsyniad adeilad rhestredig.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

48. Mae'r canllawiau wedi'u targedu at awdurdodau lleol ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Cyfoeth Naturiol Cymru, a chânt eu diwygio er mwyn nodi hyn yn glir. Rhoddir manylion pellach am rolau a chyfrifoldebau'r sefydliadau gwahanol, gan gynnwys sut y dylent fwydo i mewn i'r CAHau. Caiff dogfen ar wahân yn cynnwys y meincnodau a'r safonau ar gyfer y CAHau ei llunio a'i chyhoeddi ar wefan Cadw. Caiff y Canllawiau eu hadolygu er mwyn ymgorffori nifer o sylwadau manwl.

| | |
|---|---|
| **C8.** | **A yw'r canllawiau statudol drafft, *Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Llunio a Defnyddio*, yn rhoi digon o arweiniad i gyrff cyhoeddus perthnasol ynghylch sut y gallant gyfrannu at y gwaith o lunio cofnodion amgylchedd hanesyddol? Sut y gellid gwella'r adran hon?** |

| Ydyn | Nac ydyn | Sylw yn unig | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| 24 | 11 | 2 | **37** |
| 65% | 30% | 5% | **100%** |

**Crynodeb o'r dadansoddiad**

49. Roedd yr ymatebwyr o'r farn y byddai'r canllawiau yn ddefnyddiol i godi ymwybyddiaeth o'r canlynol:

- pwysigrwydd y CAHau fel adnoddau i gyrff cyhoeddus;
- gallu'r CAHau i lywio amrywiaeth o weithgareddau;
- y potensial i gyrff cyhoeddus wneud cyfraniadau ystyrlon i'r CAHau.

Fodd bynnag, roedd rhywfaint o bryder ynghylch cywair cyffredinol y canllawiau, yr ystyriwyd eu bod yn rhagnodol ac y gallent ddieithrio cyrff cyhoeddus yn hytrach na meithrin cydberthnasau cynhyrchiol.

50. Yn gyffredinol, ystyriwyd hefyd y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r canllawiau yn pwysleisio pwysigrwydd gweithgarwch cydgysylltu da, cyswllt rheolaidd a gwaith partneriaeth rhwng y cyrff cyhoeddus a'r CAHau. Dylent hefyd sôn am y dulliau posibl y gallai cyrff cyhoeddus eu defnyddio i ddylanwadu ar weithrediadau'r CAHau a'u mentrau gwella data.

51. Dylai'r canllawiau gynnwys rhagor o fanylion am y ffordd y gallai cyrff cyhoeddus a'r cyhoedd gyfrannu at y gwaith o lunio'r CAHau. Awgrymwyd bod angen dull neu fethodoleg fanwl. Awgrymodd un ymatebydd fod y canllawiau ychydig yn amwys ynglŷn â phwy a oedd yn gyfrifol am roi gwybodaeth newydd yn y CAHau.

52. Lleisiodd nifer o ymatebwyr bryder ynghylch y goblygiadau o ran adnoddau i awdurdodau lleol pe baent yn ceisio bodloni'r gofynion o ran cyfrannu at y CAHau. Ystyriwyd na fyddai gan lawer o awdurdodau ddigon o staff nac adnoddau.

53. Awgrymodd un ymatebydd y gallai'r canllawiau roi mwy o eglurder ynglŷn â'r rhyngwyneb rhwng y CAHau a Chynlluniau Datblygu Strategol a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Nododd ymatebydd arall fod angen i'r canllawiau gyfeirio at weithdrefnau eithrio eglwysig, lle roedd papurau yn ymwneud â chydsyniad adeilad rhestredig yn cael eu cadw gan gorff eglwysig yn hytrach nag awdurdod lleol Awgrymwyd hefyd y dylai'r canllawiau esbonio'n gliriach oblygiadau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016o ran cofnodion sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol morol a gedwir gan CBHC. Awgrymodd un ymatebydd y dylai'r canllawiau roi gwybodaeth am oblygiadau defnyddio'r wybodaeth yn y CAHau ar gyfer gweithgarwch anghyfreithlon megis gweithgarwch canfod metel ar ased dynodedig.

54. Argymhellwyd y gellid atgyfnerthu'r canllawiau ar enwau lleoedd drwy gynnwys canllawiau ar gofnodi enwau lleoedd a rhoi sylw dyledus i gywirdeb orthograffig a tharddiad enwau. At hynny, awgrymwyd y gellid gwella'r canllawiau ar ddefnyddio'r rhestr o enwau lleoedd drwy fanylu ar bwysigrwydd enwau lleoedd hanesyddol ac annog cyrff cyhoeddus i roi sylw dyledus iddynt wrth ystyried cynigion i enwi lleoedd neu geisiadau i newid enwau strydoedd neu eiddo. Dylid hefyd ystyried pa mor briodol yw rhoi canllawiau i berchenogion preifat nodweddion topograffig ar bwysigrwydd cadw enwau hanesyddol, sy'n aml yn deillio o nodweddion pwysig sy'n gysylltiedig â'r lleoedd hynny.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

55. Bydd y canllawiau yn rhai statudol ac, felly, mae'r iaith yn wahanol i'r hyn a fabwysiadwyd yn y canllawiau arfer gorau. Caiff y canllawiau eu diwygio er mwyn cydnabod y trefniadau da ar gyfer gweithio mewn partneriaeth sydd eisoes yn bodoli rhwng y cyrff cyhoeddus a'r CAHau, yn ogystal ag ymgorffori nifer o'r sylwadau manwl yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Bydd yn ofynnol i'r ymddiriedolaethau archaeolegol gysylltu ag awdurdodau lleol a'u helpu i roi'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 i'r CAHau. Caiff atodiad ar wahân, sy'n nodi sut y dylai awdurdodau cynllunio lleol ddefnyddio'r rhestr o enwau lleoedd hanesyddol wrth ystyried ceisiadau i enwi ac ailenwi strydoedd ac eiddo, ei gynnwys yn y canllawiau.

| | |
|---|---|
| **C9.** | **A yw'r canllawiau statudol drafft, *Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Llunio a Defnyddio*, yn nodi'n glir sut y dylai'r cyrff cyhoeddus perthnasol ddefnyddio'r cofnodion amgylchedd hanesyddol wrth arfer eu swyddogaethau? Sut y gellid gwella'r adran hon?** |

| Ydyn | Nac ydyn | Sylw yn unig | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| 23 | 10 | 4 | **37** |
| 62% | 27% | 11% | **100%** |

**Crynodeb o'r dadansoddiad**

56. Nododd rhai ymatebwyr, er mwyn gwneud defnydd ystyrlon o'r CAHau, fod angen ewyllys da a chydberthnasau da rhwng y cyrff cyhoeddus a'r CAHau.

Awgrymwyd bod angen rhoi lle mwy blaenllaw i rôl staff y CAHau, gan nad oes gan y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yng Nghymru arbenigedd mewnol. Awgrymodd sawl ymatebydd y dylai cyrff cyhoeddus gael hyfforddiant ar sut i wneud y defnydd gorau posibl o gronfa ddata'r CAHau.

57. Nododd ymatebwyr sawl maes a fyddai'n elwa ar wybodaeth neu fanylion ychwanegol am y ffordd y dylai'r CAHau gael eu defnyddio ym mhrosesau gwneud penderfyniadau cyrff cyhoeddus.

58. Gofynnodd nifer o awdurdodau lleol ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol am eglurhad ynglŷn â'r defnydd o'r termau ‘dylai’, ‘rhaid’ a ‘gall’, yn enwedig mewn perthynas â datblygu polisïau a chynlluniau. Gofynnwyd am fanylion pellach am sut y dylai awdurdodau cynllunio lleol ddefnyddio CAHau wrth gyflawni eu cyfrifoldebau cynllunio — gan gynnwys penderfynu ar geisiadau cynllunio — a faint o bwys y dylid ei roi ar y wybodaeth a geir yn y CAHau.

59. Awgrymodd ymatebydd arall y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r canllawiau yn cydnabod pwysigrwydd cyfochrog y Cofnod Henebion Cenedlaethol drwy gynnwys rhestr o rolau a defnyddiau fel yr un a ddarperir ar gyfer CAHau yn adran 1.2.

60. Roedd un ymatebydd o'r farn y dylid cydnabod y rôl y mae archaeolegwyr preifat ac academaidd yn ei chwarae o ran cyfrannu at y CAHau yn y ddogfen.

61. Awgrymodd sawl ymatebydd y byddai manylion pellach am y defnydd o'r rhestr o enwau lleoedd hefyd yn ddefnyddiol. Gellid cyfeirio'n benodol at enwau lleoedd yn y paragraff ar ‘at ba ddiben y caiff cofnod amgylchedd hanesyddol ei ddefnyddio’, yn ogystal ag yn yr adran sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r CAH gofnodi manylion pob ardal 'y mae'r awdurdod o'r farn ei bod o ddiddordeb hanesyddol, archaeolegol neu bensaernïol lleol'. At hynny, gellid cyfeirio'n benodol at ddefnyddioldeb enwau lleoedd i'r gweithgareddau sy'n ymwneud â'r defnydd o CAHau yn adran 4.

62. Awgrymodd un ymatebydd y byddai'n ddefnyddiol cynnwys gwybodaeth am y Ddeddf Trysor a'r Cynllun Henebion Cludadwy ac, felly, gyfraniad Swyddogion Cyswllt Darganfyddiadau i'r CAHau. Roedd ymatebydd arall o'r farn y dylai'r canllawiau gyfeirio at longddrylliadau dynodedig o dan Ddeddf Diogelu Llongddrylliadau.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

63. Caiff y canllawiau eu hadolygu er mwyn ystyried nifer o'r sylwadau manwl. Cânt eu diwygio er mwyn cydnabod y rôl y mae staff CAHau yn ei chwarae o ran rhoi cyngor i gyrff cyhoeddus. Byddant hefyd yn nodi'n glir na ddylai defnyddwyr ddibynnu ar y data a geir o fewn Archwilio yn unig a bod gan yr ymddiriedolaethau archaeolegol wybodaeth ychwanegol. Caiff gwybodaeth ychwanegol am y Cofnod Henebion Cenedlaethol ei chynnwys yn y canllawiau. Caiff atodiad ei ychwanegu hefyd er mwyn rhoi canllawiau penodol i awdurdodau lleol ar sut y dylent ystyried y rhestr o enwau lleoedd hanesyddol.

## C. Canllawiau arfer gorau: *Rheoli Adeiladau Rhestredig sydd mewn Perygl yng Nghymru*

| | |
|---|---|
| **C10.** | **A fydd y canllawiau drafft, *Rheoli Adeiladau Rhestredig sydd mewn Perygl yng Nghymru*, yn helpu i reoli adeiladau hanesyddol sydd mewn perygl yn fwy effeithiol? Sut y gellid eu gwella?** |

| Byddant | Na fyddant | Sylw yn unig | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 6 | 3 | **36** |
| 75% | 17% | 8% | **100%** |

**Crynodeb o'r dadansoddiad**

64. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cytuno y byddai'r canllawiau yn helpu i reoli adeiladau rhestredig sydd mewn perygl yn fwy effeithiol a chynigiodd sawl un awgrymiadau penodol ynglŷn â sut y gellid eu gwella.

65. Awgrymodd nifer o awdurdodau lleol y byddai'n ddefnyddiol dilyn 'Stopping the Rot' a gyhoeddwyd gan Historic England neu ei gymeradwyo'n uniongyrchol. Hefyd, gellir rhoi gwybodaeth fanylach am ddefnyddio pwerau statudol a'r ffordd orau o ddefnyddio'r pwerau hynny.

66. Mynegwyd rhywfaint o bryder yn yr ymatebion y câi dilysrwydd cyffredinol y canllawiau ei danseilio gan broblemau o ran adnoddau mewn awdurdodau cynllunio lleol. Mae'n bosibl na fyddai gan awdurdodau yr adnoddau i roi'r mesurau a drafodwyd ar waith na'r hyder na'r arbenigedd sydd eu hangen i weithredu. Roedd nifer fach o ymatebwyr yn amau a fyddai'r canllawiau yn arwain at reoli adeiladau hanesyddol sydd mewn perygl yn fwy effeithiol.

67. Argymhellodd un ymatebydd y dylid cynnwys astudiaethau achos fel atodiad i'r ddogfen, tra roedd eraill o'r farn y byddai llythyrau a hysbysiadau templed yn fuddiol. Roedd un ymatebydd a oedd yn cynrychioli sefydliadau eglwysig o blaid darparu canllawiau penodol ar gyfer addoldai, oherwydd nifer y fath adeiladau sydd mewn perygl a'r gwahanol heriau a wynebir ganddynt. Awgrymwyd hefyd y dylai'r canllawiau gydnabod na ellir gwneud defnydd buddiol o rai strwythurau ac y dylid darparu canllawiau penodol ar sut y dylid ystyried y rhain.

68. Roedd un awdurdod lleol o'r farn y dylai'r canllawiau gyflwyno mwy o wybodaeth sy'n deillio o Arolwg Cyflwr Cymru Gyfan, megis maint a natur y broblem, a gwybodaeth am dueddiadau economaidd sy'n cyfrannu at y risg.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

69. Mae Llywodraeth Cymru yn falch bod yr ymatebwyr yn cefnogi cynnwys y canllawiau ar y cyfan. Caiff y ddogfen ei diwygio er mwyn cymeradwyo canllawiau Historic England, 'Stopping the Rot', ond bydd angen bod yn ofalus am fod y gyfraith yng Nghymru yn wahanol i'r gyfraith yn Lloegr. Y nod hirdymor fydd roi

astudiaethau achos ar wefan Cadw i ategu'r canllawiau. Caiff y canllawiau eu hadolygu er mwyn ystyried y sylwadau manwl a wnaed gan ymatebwyr.

| | |
|---|---|
| **C11.** | **A yw'r cyngor ar gyflwr, defnydd a pherchenogaeth yn y canllawiau drafft, *Rheoli Adeiladau Rhestredig sydd mewn Perygl yng Nghymru*, yn cwmpasu'r prif faterion? Os nad ydyw, beth sydd ar goll?** |

| Ydy | Nac ydy | Sylw yn unig | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| 19 | 12 | 4 | **35** |
| 54% | 34% | 12% | **100%** |

**Crynodeb o'r dadansoddiad**

70. Er bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno bod y cyngor yn y canllawiau ar gyflwr adeiladau sydd mewn perygl, y defnydd a wneir ohonynt a'u perchenogaeth wedi ymdrin â'r materion allweddol, cynigiwyd nifer o sylwadau manwl.

71. Roedd nifer o ymatebwyr yn falch o weld y pwyslais a roddwyd ar yr angen i ddod o hyd i ddefnydd ymarferol er mwyn achub adeilad sydd mewn perygl. Nododd un ymatebydd fod angen i'r canllawiau gydnabod ei bod yn bosibl bod gan rai elusennau sy'n berchen ar adeiladau rhestredig ddyletswyddau i'w cyflawni a allai wrthdaro â'r gwaith o reoli adeilad.

72. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod y canllawiau yn darparu dadansoddiad da o faterion ond nad oeddent yn cynnig digon o gyngor ymarferol ar sut i ddelio â'r heriau. Byddai astudiaethau achos ac enghreifftiau yn ddefnyddiol. Roedd pryder ei bod yn afrealistig disgwyl i awdurdodau cynllunio lleol chwarae rôl ragweithiol o ystyried y problemau presennol o ran capasiti ac adnoddau.

73. Awgrymodd un ymatebydd y dylai'r dadansoddiad o achosion risg hefyd gynnwys pwysau canfyddedig y farchnad ac achosion o waredu asedau yn fyrbwyll. At hynny, gellid cynnwys diogelwch gwael, lladrad a difrod maleisus. Nodwyd bod angen i'r wybodaeth am waredu asedau gyd-fynd ag adran 123 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

74. Argymhellwyd hefyd y byddai perchenogion, sefydliadau yn y trydydd sector a chymdeithasau amwynder yn elwa ar gael mynediad i gronfa ddata Arolwg Cyflwr Cymru Gyfan er mwyn eu helpu i wneud penderfyniadau.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

75. Caiff y canllawiau eu hadolygu er mwyn ystyried sylwadau manwl a gyflwynwyd gan yr ymatebwyr. Caiff y wybodaeth am y categorïau gwahanol o adeiladau nad oes ganddynt, o bosibl, ddefnydd ymarferol amlwg ei gwella. Byddai'n anodd rhoi mynediad agored i gronfa ddata Arolwg Cyflwr Cymru Gyfan, ond ystyrir y posibilrwydd o wneud y wybodaeth yn fwy hygyrch. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y pwysau o ran adnoddau a wynebir gan awdurdodau cynllunio lleol ond hefyd bwysigrwydd rheoli adeiladau sydd mewn perygl.

## CH. Canllawiau arfer gorau: *Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru*

| | |
|---|---|
| **C12.** | **A yw'r canllawiau drafft, *Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru*, yn esbonio'n glir y goblygiadau sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar barc neu ardd hanesyddol sydd wedi'i gynnwys/wedi'i chynnwys ar y gofrestr statudol? Sut y gellid eu gwella?** |

| Ydyn | Nac ydyn | Sylw yn unig | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| 24 | 8 | 2 | **34** |
| 70% | 24% | 6% | **100%** |

**Crynodeb o'r dadansoddiad**

76. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn gadarnhaol iawn am gynnwys y canllawiau ac roeddent yn cytuno ei fod yn esbonio goblygiadau bod yn berchen ar barc neu ardd hanesyddol sy'n gofrestredig. Gwnaed nifer o sylwadau adeiladol ar sut y gellid gwella'r canllawiau. Awgrymodd un ymatebydd y dylid cynnwys adran ar sut mae cofrestru yn ymwneud â pholisi cynllunio a'r system gynllunio o dan bennawd penodol yn y canllawiau. Roedd ymatebwyr hefyd o'r farn y byddai'r canllawiau yn elwa ar adran glir ar ba fathau o newidiadau a oedd yn dderbyniol i barc neu ardd hanesyddol.

77. Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at natur wahanol parciau a gerddi hanesyddol ar y gofrestr gan nodi y byddai'n anodd darparu canllawiau priodol ar gyfer pob sefyllfa. Awgrymodd un ymatebydd y dylai'r canllawiau hybu'r gwaith o ddiogelu'r nodweddion hanfodol sy'n ffurfio cymeriad hanesyddol y parc a'r ardd mewn ffordd fwy cadarn. Nodwyd hefyd fod potensial ar gyfer gwrthdaro pan fo parc a gardd hanesyddol gofrestredig o fewn ardal ddynodedig ac y dylai'r canllawiau ddarparu hierarchaeth glir o ddynodiadau gwahanol.

78. Gofynnodd tri awdurdod lleol p'un a ymgynghorid yn uniongyrchol â pherchenogion parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig ynghylch cynnwys eu tir yn y gofrestr statudol o barciau a gerddi hanesyddol.

79. Roedd dau ymatebydd o'r farn bod yr adran ar gynllunio yn rhy ragnodol a bod angen gwahaniaethu rhwng y gwaith o reoli parciau a'r gwaith o reoli gerddi. At hynny, awgrymwyd y gallai newidiadau arloesol i rai gerddi eu gwella neu eu gwneud yn fwy cynaliadwy.

80. Awgrymwyd hefyd y dylai'r canllawiau annog perchenogion i lunio strategaeth glir ar gyfer ariannu'r gwaith o gynnal a chadw eu tir a gofalu amdano yn yr hirdymor. Dylai'r canllawiau nodi y bydd angen i berchenogion, o bosibl, ystyried ffyrdd amgen o gynhyrchu incwm er mwyn sicrhau hyfywedd ariannol hirdymor eu parc neu eu gardd hanesyddol.

81. Gwnaed nifer o sylwadau manwl ar y testun drafft, gan gynnwys yr angen i ehangu'r trafodaethau ynghylch y canlynol:

- y meini prawf ar gyfer cofrestru;
- ystyr o ddiddordeb hanesyddol arbennig;
- y gweithdrefnau ymgynghori ac adolygu;
- y gwahaniaeth rhwng ‘lleoliad hanfodol’ a ‘lleoliad’.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

82. Mae Llywodraeth Cymru yn falch bod yr ymatebwyr yn ystyried bod y canllawiau yn ddefnyddiol. Mae ymarfer yn cael ei gynnal i nodi perchenogion parciau a gerddi hanesyddol a'u hysbysu am y newidiadau a wnaed gan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. Rhoddir eglurhad a chanllawiau pellach ar ddiben y gofrestr o barciau a gerddi hanesyddol ac ystyriaethau cynllunio.

| | |
|---|---|
| **C13.** | **A fydd *Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru* yn helpu perchenogion a'u hasiantau i reoli parciau a gerddi hanesyddol er mwyn cyflawni newid sensitif o ansawdd uchel? Sut y gellid ei wella?** |

| Bydd | Na fydd | Sylw yn unig | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| 26 | 5 | 2 | **33** |
| 79% | 15% | 6% | **100%** |

**Crynodeb o'r dadansoddiad**

83. Nododd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr y byddai'r canllawiau yn helpu i reoli parciau a gerddi hanesyddol. Gwnaed nifer o awgrymiadau allweddol i wella'r canllawiau.

84. Nododd un ymatebydd y gallai'r canllawiau gynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- integreiddio datblygiadau modern yn sensitif mewn parc neu ardd hanesyddol,
- sut i alluogi gwaith datblygu,
- sut i osgoi amharu ar gyfanrwydd hanesyddol parc neu ardd pan fydd y posibilrwydd o'i (h)is-rannu yn cael ei ystyried.

85. Gofynnodd nifer o awdurdodau cynllunio lleol a ddylai cynlluniau rheoli cadwraeth fod yn ofyniad, yn hytrach nag arfer gorau, ar gyfer parciau a gerddi hanesyddol. Byddai hynny'n ei gwneud yn ofynnol i berchennog ganolbwyntio ar arwyddocâd yr ased ac yn arwain at ddealltwriaeth lawer gwell ohono. Awgrymodd awdurdod lleol arall y dylai Cadw ymateb yn fwy uniongyrchol i geisiadau cynllunio a chynnig barn gliriach.

86. Awgrymwyd hefyd y dylai'r canllawiau gydnabod y tensiwn a allai godi rhwng yr angen am fesurau cadwraeth a rheolaeth priodol a'r angen i godi refeniw i gynnal a chadw parc neu ardd.

87. Roedd ymatebwyr hefyd o'r farn y byddai gwybodaeth ychwanegol am werth archaeolegol parc neu ardd yn ddefnyddiol. Dylai hyn gynnwys cyngor i berchenogion/deiliaid y gallai fod angen cyfundrefn reoli benodol ar gyfer nodweddion sy'n sefyll yn rhannol neu nodweddion o dan y ddaear sydd wedi goroesi o gynllun gardd cynharach.

88. Roedd dau ymatebydd o'r farn y gellid gwella'r canllawiau drwy gynnwys enghreifftiau o newid sensitif o ansawdd uchel a dangos sut mae cynlluniau rheoli wedi helpu i gyflawni canlyniadau o'r fath.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

89. Caiff y canllawiau eu diwygio er mwyn adlewyrchu nifer o'r sylwadau adeiladol o'r ymgynghoriad. Rhoddir mwy o bwyslais ar yr angen i gydbwyso cadwraeth â gweithgarwch cynhyrchu incwm, yn ogystal ag ar reoli archaeoleg o fewn parc neu ardd hanesyddol. Bydd y canllawiau yn cydnabod bod pob safle yn wahanol a bod angen ei ystyried ar sail ei rinweddau unigol.

## D. Canllawiau arfer gorau: *Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru*

| | |
|---|---|
| **C14.** | **A yw'r canllawiau drafft, *Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru*, yn esbonio'n glir beth yw nodwedd hanesyddol? Sut y gellid eu gwella?** |

| Ydyn | Nac ydyn | Sylw yn unig | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| 26 | 7 | 6 | **39** |
| 67% | 18% | 15% | **100%** |

**Crynodeb o'r dadansoddiad**

90. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr o'r farn bod y canllawiau yn esbonio nodwedd hanesyddol yn glir. Gwnaed nifer o awgrymiadau manwl ar elfennau o'r testun arfaethedig, gan gynnwys ychwanegu at y ffynonellau o wybodaeth a chyfeirio at becynnau cymorth sydd ar gael i lywio astudiaethau o nodweddion.

91. Nododd pedwar ymatebydd y dylai'r gynulleidfa ar gyfer y canllawiau fod yn gliriach. Awgrymodd rhai y dylid eu hanelu at wirfoddolwyr a grwpiau cymunedol, tra roedd eraill o'r farn y dylid eu cyfeirio at awdurdodau lleol.

92. Lleisiwyd rhai pryderon ynghylch y canlynol:

- canlyniad bwriadedig y canllawiau mewn perthynas â phenderfyniadau cynllunio;
- y pwys y dylid ei roi arnynt;
- sut y gallent helpu awdurdodau cynllunio lleol yn y broses gynllunio wrth drafod ceisiadau.

Awgrymodd sawl ymatebydd y dylid cysylltu'r canllawiau yn gliriach ag astudiaethau nodweddion Cadw ei hun er mwyn dangos y cysylltiad rhwng cysyniad ac arfer a gwella dealltwriaeth.

93. Roedd un ymatebydd o'r farn bod y canllawiau yn rhy amwys mewn mannau a galwodd am fanylion pellach o ran pa elfennau o nodwedd hanesyddol y dylid eu hystyried a sut y gellid lliniaru newid. Awgrymodd ymatebydd arall y dylai'r canllawiau gydnabod pwysigrwydd sicrhau bod adeiladau yn parhau i gael eu defnyddio.

94. Mynegodd sawl ymatebydd bryder ynghylch yr adnoddau dynol ac ariannol sy'n gysylltiedig ag asesu nodweddion hanesyddol a gofyn a oedd yn rhesymol disgwyl i gyrff cyhoeddus gynnal astudiaethau ar adeg pan maent yn wynebu cyfyngiadau ariannol o'r fath.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

95. Caiff y canllawiau eu gwella er mwyn adlewyrchu'r sylwadau a gafwyd gan ymatebwyr. Bydd y canllawiau yn rhoi mwy o bwyslais ar yr astudiaethau o nodweddion a gynhaliwyd gan Cadw ac yn egluro sut y dylai nodwedd hanesyddol gael ei hystyried yn y cyd-destun cynllunio. Cynhwysir cyfeiriadau at ffynonellau defnyddiol eraill o wybodaeth hefyd. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y pwysau o ran adnoddau a wynebir gan awdurdodau cynllunio lleol, ond hefyd bwysigrwydd cydnabod a rheoli nodweddion hanesyddol ardal.

| | |
|---|---|
| **C15.** | **A yw'r canllawiau drafft, *Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru*, yn rhoi digon o wybodaeth i gefnogi'r gwaith o reoli nodweddion hanesyddol yn effeithiol? Os nad ydynt, beth sydd ar goll?** |

| Ydyn | Nac ydyn | Sylw yn unig | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| 20 | 14 | 4 | **38** |
| 53% | 37% | 10% | **100%** |

**Crynodeb o'r dadansoddiad**

96. Roedd dros hanner yr ymatebwyr o'r farn bod y canllawiau drafft yn rhoi digon o wybodaeth er mwyn helpu i reoli nodweddion hanesyddol yn effeithiol. O'r rhai a roddodd ateb negyddol i'r cwestiwn, cynigiodd y rhan fwyaf sylwadau adeiladol ynghylch sut y gellid gwella'r ddogfen. Fodd bynnag, lleisiwyd pryder ynghylch pa mor effeithiol fyddai'r dull gweithredu yn y broses gynllunio.

97. Roedd y prif bryderon a leisiwyd gan awdurdodau lleol yn ymwneud â'r pwys y dylid ei roi ar y canllawiau mewn penderfyniadau cynllunio a sut y gellid eu defnyddio fel adnodd effeithiol yn y broses gwneud penderfyniadau. Nododd un ymatebydd bod hyrwyddo gwaith dadansoddi wedi'i lywio gan y gymuned yn codi cwestiynau ynghylch p'un a roddid yr un pwys neu fwy o bwys ar adroddiadau gan y gymuned nag a roddid ar adroddiadau a baratowyd gan ddefnyddio arbenigedd proffesiynol.

98. Awgrymodd un ymatebydd y dylid rhoi pwys ar yr agweddau ffisegol ar nodwedd hanesyddol yn y broses gynllunio. Gellid gwneud hyn drwy'r CAHau, a ddefnyddid wedyn wrth gyflawni'r swyddogaeth rheoli datblygu.

99. Mynegwyd safbwyntiau croes ynglŷn â'r lefel o fanylder sydd ei angen yn y ddogfen ganllaw. Roedd un ymatebydd o'r farn bod y canllawiau yn gynhwysfawr ond bod angen i'w hiaith academaidd a'u cysyniadau fod yn fwy hygyrch er mwyn cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau yn effeithiol. Roedd ymatebydd arall o'r farn nad oedd y ddogfen ganllaw yn rhoi digon o wybodaeth er mwyn helpu i reoli nodweddion hanesyddol fel y'u diffiniwyd yn effeithiol. Gofynnodd ymatebwyr am fwy o fanylion am strwythur arfarniadau o nodweddion hanesyddol a'r camau yn y broses o'u llunio.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

100. Caiff y canllawiau eu hadolygu er mwyn ystyried y sylwadau manwl a gynigiwyd gan ymatebwyr. Caiff adran newydd ar gynnwys adroddiad nodweddu ei hychwanegu at y canllawiau ac anogir adneuo adroddiad yn y CAH perthnasol. Pwysleisir hefyd y cyfraniad y mae enwau lleoedd hanesyddol yn ei wneud at gymeriad ardal. Bydd y canllawiau yn croesgyfeirio at *Bolisi Cynllunio Cymru* a *Nodyn Cyngor Technegol 24* ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol, a ddylai egluro sut y dylid ystyried nodwedd hanesyddol yn y broses gynllunio.

| | |
|---|---|
| **C16.** | **Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion perthnasol nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.** |

**Crynodeb o'r sylwadau ychwanegol**

101. Gwnaeth ymatebwyr nifer o sylwadau ychwanegol ar yr ymgynghoriad.

102. Manteisiodd sawl un ar y cyfle i nodi bod y canllawiau i'w croesawu am eu bod yn uno, yn cadarnhau ac yn ehangu dull tameidiog o reoli'r amgylchedd hanesyddol. Yn gyffredinol, nododd yr ymatebwyr fod y canllawiau wedi'u hysgrifennu'n dda ac yn hawdd eu deall.

103. Roedd tri ymatebydd o'r farn bod angen mwy o reoleiddio er mwyn diogelu enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru. Roedd ymatebydd arall o'r farn bod bwlch rhwng archaeolegwyr sefydliadol a grwpiau yn y trydydd sector y gellid ei bontio drwy rwydweithio/cydweithredu rhwng grwpiau ar-lein. Lleisiwyd pryder hefyd nad oedd gan Gymru rwydwaith o swyddogion treftadaeth dwyieithog a allai sicrhau dull strwythuredig a chydgysylltiedig o reoli a hyrwyddo treftadaeth leol.

104. Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu ynghylch gallu awdurdodau cynllunio lleol i reoli'r amgylchedd hanesyddol a phwysleisiwyd y dylid eu hatgoffa o ddymunoldeb cadw arbenigedd mewnol er mwyn cyflawni eu swyddogaethau. Gofynnwyd hefyd am eglurhad ynglŷn â'r pwys statudol y dylid ei roi ar y

dogfennau canllaw wrth wneud penderfyniadau ac ar apêl. Awgrymwyd hefyd y byddai dogfen gryno yn nodi'r holl ddyletswyddau newydd a osodir ar awdurdodau lleol yn ddefnyddiol.

105. Gofynnodd ymatebydd arall pa mor fanteisiol oedd cael rheoliadau gwahanol yng Nghymru a Lloegr, gan nodi y gallai hyn beri dryswch ac arwain at ddiffyg o ran sgiliau arbenigol.

106. Yn olaf, manteisiodd un ymatebydd ar y cyfle i leisio pryder ynghylch y cynnig i uno swyddogaethau'r sefydliadau treftadaeth cenedlaethol yng Nghymru a nodi y gallai unrhyw weddillion o'r sefydliadau fod yn aneffeithiol o fach.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

107. Mae Llywodraeth Cymru yn falch bod yr ymatebwyr, ar y cyfan, yn croesawu'r gyfres o ganllawiau sy'n cael eu datblygu er mwyn helpu i reoli'r amgylchedd hanesyddol mewn ffordd gynaliadwy. Bydd y rhestr o enwau lleoedd hanesyddol a'r canllawiau statudol a fydd yn cefnogi'r defnydd o CAHau yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ein henwau lleoedd hanesyddol. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y pwysau o ran adnoddau a wynebir gan awdurdodau cynllunio lleol ac yn gobeithio y bydd y canllawiau newydd yn rhoi eglurder ac arweiniad iddynt o ran rheoli'r amgylchedd hanesyddol.

## Rhestr o'r ymatebwyr (wedi'u trefnu yn ôl categori)

Nodir cyfanswm yr ymatebwyr ar gyfer pob categori yn y pennawd. Mae pob cofnod yn rhoi rhif yr ymateb i'r ymgynghoriad, enw'r unigolyn neu'r sefydliad sy'n ymateb (oni ofynnwyd inni beidio â'i ddatgelu) a lleoliad yr ymatebydd (os yw'n hysbys).

| **Unigolyn — 8** | | |
|---|---|---|
| 001 | Kenneth J. Richards | Ontario, Canada |
| 008 | Evan Owen | Gwynedd |
| 009 | Clive James | Cymru |
| 013 | Judith Doyle | Abertawe |
| 017 | Yr Athro Ralph Griffiths | Abertawe |
| 021 | Jack Hanbury | Pont-y-pŵl |
| 026 | Siân Rees | Rhaglan |
| 046 | Gofynnodd yr ymatebydd am gael aros yn ddienw | |

| **Busnesau — 3** | | |
|---|---|---|
| 031 | Lichfields | Caerdydd |
| 035 | Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys | Y Trallwng |
| 039 | Trysor | Rhydaman |

| **Awdurdod cynllunio lleol — 17** | | |
|---|---|---|
| 004 | Cyngor Sir Ceredigion | Aberaeron |
| 005 | Cyngor Sir Penfro | Sir Benfro |
| 006 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | Merthyr Tudful |
| 007 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | Wrecsam |
| 010 | Cyngor Blaenau Gwent | Glynebwy |
| 015 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | Pen-y-bont ar Ogwr |
| 020 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | Ystrad Mynach |
| 022 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (Cyngh) | Wrecsam |
| 024 | Cyngor Gwynedd | Pwllheli |
| 027 | Cyngor Dinas Casnewydd | Casnewydd |
| 028 | Cyngor Sir y Fflint | Yr Wyddgrug |
| 029 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Bae Colwyn |
| 034 | Fforwm Swyddogion Cadwraeth De Cymru | Brynbuga |
| 040 | Cyngor Sir Caerfyrddin | Caerfyrddin |
| 041 | Cyngor Bro Morgannwg | Y Barri |
| 042 | Y Tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru | Penrhyndeudraeth |
| 043 | Parciau Cenedlaethol Cymru | Doc Penfro |

| **Un o asiantaethau'r Llywodraeth/Corff arall yn y sector cyhoeddus — 2** | | |
|---|---|---|
| 003 | Cyfoeth Naturiol Cymru | Aberystwyth |
| 038 | Amgueddfa Cymru | Caerdydd |

| Corff Proffesiynol/Grŵp â Diddordeb — 10 | | |
|---|---|---|
| 012 | Society of Antiquaries of London | Llundain |
| 019 | Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr | Darllen |
| 030 | Sefydliad Cadwraeth Adeiladau Hanesyddol | Tisbury |
| 033 | Grŵp Treftadaeth Cymru | Llundain |
| 036 | Y Cyngor Archeoleg Brydeinig | Caerefrog |
| 037 | Cymdeithas Cynnyrch Mwynol | Llundain |
| 044 | Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd | Bangor |
| 045 | Cymdeithas Cyfreithwyr Lloegr a Chymru | Caerdydd |
| 048 | Cymdeithas Swyddogion Archaeoleg Llywodraeth Leol Cymru | Penrhyndeudraeth |
| 049 | Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru | Caerdydd |

| Y Sector Gwirfoddol — 6 | | |
|---|---|---|
| 002 | Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg Gwent | Abertawe |
| 014 | Cymdeithas Tai Hanesyddol Cymru | Llundain |
| 023 | Cytûn – Eglwysi ynghyd yng Nghymru | Caerdydd |
| 025 | Cymdeithas Ddinesig Brynbuga | Brynbuga |
| 032 | Y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad Cymru | Llanandras |
| 047 | Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig<br>Cangen Aberhonddu a Maesyfed | Llanandras |

| Grŵp arall nas rhestrir uchod — 3 | | |
|---|---|---|
| 011 | Comisiynydd y Gymraeg | Caerdydd |
| 016 | Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed | Llandeilo |
| 018 | Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru | |